

ARCHIFAU MORGANNWG

Y DITECTIF TŶ

Mae olrhain hanes eiddo a dysgu am y bobl a fu'n byw yno yn gallu bod yn gyffrous a rhoi boddhad. Mae'n anodd gwybod ble i ddechrau a bydd y dull o ymchwilio yn amrywio'n ôl y math o dŷ, ei leoliad, dyddiad ac a oes cofnodion perthnasol wedi goroesi. Gallwch arbed amser ac ymdrech trwy wneud gwaith o flaen llaw, yn enwedig mewn llyfrgelloedd.

Cyn i chi ddechrau...

- Penderfynwch beth ydych chi am ei wybod am eich eiddo. Oes gennych chi ddi-ddordeb yn y bobl a oedd yn byw yno neu yn yr adeilad ei hun?
- Casglwch wybodaeth gefndir. A oedd yr adeilad yn ysgol, eglwys, tafarn neu beth? Ym mha blwyf eglwysig mae'r adeilad? Ym mha awdurdod lleol mae'r adeilad ac a yw hynny wedi newid?
- A all yr adeilad ei hun ddarparu unrhyw dystiolaeth bensaernïol neu archeolegol i chi?
- Edrychwch ar lyfr cyffredinol am hanes tai e.e. *Tracing the History of your House* gan Nick Barratt, a gyhoeddwyd gan yr Archifdy Cyhoeddus.

CAMAU CYNTAF...

Yr adeilad

Gall math, lleoliad a deunyddiau adeilad roi cliwiau defnyddiol ynglŷn ag oed.

Edrychwch yn ofalus ar ei faint a'i siâp. Gwnewch gynllun gyda mesuriadau a thynnwch ffotograff o'r tu allan. Oes yna adeiladau tebyg yn yr ardal? Gall tŷ tebyg sy'n bosib ei ddyddio awgrymu dyddiad eich tŷ chi. Holwch gymdogion hŷn neu bobl sy'n byw yn y stryd os allan nhw ddweud rhywbeth wrthydych chi am y tŷ. Byddwch yn ofalus gyda cherrig sy'n nodi dyddiadau – ni allwch ddibynnu arnynt ac efallai eu bod wedi'u symud o adeilad cynharach ar y safle.

A oes enw i'r tŷ? Efallai y bydd Waterloo Villa yn perthyn i'r cyfnod ar ôl brwydr Waterloo (er i'r enw newid o bosib). Nodwch enw'r stryd neu'r ffordd: gall y rhain gyfeirio at adeiladwr, cynghorydd neu frenin neu frenhines. Edrychwch ar yr adeiladau sydd gerllaw. Os yw'r tŷ ger croesffordd efallai ei fod yn arfer bod yn dollborth neu'n dafarn; os yw'n adeilad ar ei ben ei hun yng nghanol tir agored gallai fod yn adeilad ar hen dir comin. Efallai y bydd hi'n haws ymchwilio i adeilad ar ei ben ei hun nac adeilad mewn pentref neu dref sy'n llawn adeiladau.

Adeiladau Rhestredig

Os yw eich tŷ wedi'i restru am resymau cadwraeth, bydd ei bensaernïaeth a'i oedran tebygol wedi'i nodi'n gryno yn y *Rhestr Statudol o Adeiladau o Ddi-ddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig* a gyhoeddir gan Adran yr Amgylchedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae copïau o'r rhestri hyn ar gael yn Adrannau Cynllunio awdurdodau lleol a gellir eu gweld yn swyddfeydd Cynghorau neu yn y rhan fwyaf o lyfrgelloedd lleol mawr.

Gweithredoedd eiddo

Cam cyntaf pwysig i'r ditectif tŷ yw cael gafael ar weithredoedd eiddo'r adeilad. O'r rhain, gallwch gael disgrifiad byr o'r tŷ, ei leoliad, maint y plot ac enwau un neu fwy o gynberchnogion y tŷ a'r bobl a fu'n byw yno.

Os yw'r lle wedi'i gofrestru gyda'r gofrestrfa tir, efallai y bydd yr hen weithredoedd gan y perchnogion presennol. Os yw'r eiddo wedi'i forgeisio, efallai y bydd y gymdeithas adeiladu neu'r banc yn fodlon rhoi caniatâd i chi eu copïo, er y byddan nhw'n siŵr o godi tâl am hyn. Mae'n bosib bod yr hen weithredoedd a phapurau cysylltiedig wedi diflannu neu wedi'u difa. Weithiau, byddant eisoes ym meddiant yr Archifdy, yn enwedig os arferai'r eiddo fod yn rhan o ystad fwy.

DECHRAU EICH GWAITH YMCHWIL

Gyda'r wybodaeth uchod gallwch fynd ati i gael gwybodaeth sylfaenol ac eilaidd. Mae'r tudalenau nesaf yn rhoi manylion am y mathau o ddeunyddiau y bydd yn rhaid i chi edrych arnynt i gael hanes adeilad, a beth allwch chi ddisgwyl ohonynt.

Deunyddiau argaffedig

Mae hanes y rhan fwyaf o drefi a phentrefi wedi'u cofnodi ar bapur ac i'w cael mewn casgliadau lleol mewn llyfrgelloedd. Gall y rhain roi cliwiau pwysig am eich tŷ a'r bobl oedd yn byw yno. Mae Llyfrgell yr Archifdy yn cynnwys nifer o gofnodion hanesyddol am blwyfi a threfi. Bydd gan lyfrgelloedd hefyd gasgliadau o ffotograffau a chardiau post a ffynonellau eilaidd fel copïau o ffurflenni cyfrifiad. Mae llyfrgelloedd hefyd yn cadw papurau lleol, naill ai ar ficroffilm neu y copïau gwreiddiol.

Cyfeirlyfrau

1822-1972

Cyhoeddwyd cyfeirlyfrau masnachol ar ddechrau'r 19eg ganrif yng Nghymru ond nid oeddynt yn ymddangos yn rheolaidd nac yn cynnwys llawer o wybodaeth tan tua 1880 pan ymddangosodd cyfeirlyfr Kelly ac eraill. Maent yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am dref neu bentref, yn cofnodi adeiladau nodedig yn cynnwys capeli ac eglwysi, ac yn rhestru masnachwyr a thrigolion yr ardal. Ychydig o wybodaeth a geir mewn cyfeirlyfrau ardal cyffredinol, ond mae cyfeirlyfrau trefi yn rhestru trigolion fesul stryd. Mae'n werth nodi na fydd y rhestri hyn yn gyflawn o bosib gan fod pobl yn gorfod talu i gael eu cynnwys ynddynt.

Mae gan yr Archifdy gyfeirlyfrau De Cymru ar gyfer y blynyddoedd 1822; 1830; 1835; 1849-1850; 1852; 1859; 1865; 1871; 1875; 1884; 1891; 1895; 1901; 1906; 1910; 1914; 1920; 1923; 1926; 1929.

Mae cyfeirlyfrau ar gael ar gyfer y trefi ag ardaloedd penodol, fel a ganlyn:

Y Barri: 1897; 1906; 1914

Caerffili: 1813

Caerdydd : 1795; 1813; 1829; 1855; 1858; 1882; 1891; 1893; 1897; 1902; 1905; 1908; 1911; 1913; 1915; 1920; 1922; 1924; 1927; 1929; 1932; 1937; 1949; 1952; 1955; 1961; 1964; 1967; 1970; 1972

Merthyr Tudful: 1873

Penarth: 1908

Pontypridd: 1882

Abertawe: 1816; 1823; 1826; 1830

Bro Morgannwg: 1912

Mapiau yr Arolwg Ordnans

1880au-1980au

Mae'r mapiau argraffedig hyn yn fan dechrau da i unrhyw ymchwilydd. Gall rhifynnau dilynol o fapiau Arolwg Ordnans mawr ddangos union ddyddiad codi adeilad a chynllun bloc y tŷ fel yr oedd ar adeg llunio'r map.

Y raddfa fwyaf defnyddiol ar gyfer dod o hyd i dŷ yw 1:2500 neu 25 modfedd i 1 filltir. Cafodd y trefi mwyaf ym Morgannwg eu mapio hefyd yn y 19eg ganrif ar raddfa o 1:500 neu 10 troedfedd i 1 filltir.

Mapiau a Dosraniadau Degwm

tua 1840

Mae'r rhain yn dyddio o'r 1840au ym Morgannwg ac maent yn ddefnyddiol iawn gan eu bod yn dod o gyfnod cyn mapiau'r Arolwg Ordnans mawr. Lluniwyd y mapiau a'r dosraniadau ategol i ddangos perchnogaeth tir a'r swm o arian a oedd yn ddyledus ar bob darn o dir. Cynhyrchwyd tri chopi, un i'r plwyf (a gedwir yn yr Archifdy), un i'r esgobaeth (a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru) ac un i Gomisiynwyr y Degwm (a gedwir yn yr Archifdy Cyhoeddus).

Mae pob plot ar y map wedi'i rifo a gellir olrhain y rhifau hyn trwy ddefnyddio'r dosraniadau sy'n rhestru enwau perchnogion yn ôl trefn yr wyddor, y deiliaid, disgrifiad o'r eiddo yn cynnwys enwau caeau, cyflwr amaethyddol, nifer o erwau a phris rhent. O'r mapiau hyn, gallwch weld a oedd eich tŷ wedi'i adeiladu ar y pryd, a oedd ganddo dir yn gysylltiedig ag ef, pwy oedd y perchennog a phwy oedd yn byw yno.

Cynlluniau Rheoleiddio Adeiladu

1859-1972

O ddiwedd y 19eg ganrif ymlaen manteisiodd llawer o awdurdodau lleol ar bwerau newydd oedd ar gael iddynt oedd yn gofyn i ddatblygwyr gyflwyno cynlluniau i'w cymeradwyo. Mae rhai o'r cynlluniau sydd wedi goroesi yn cael eu cadw yn yr Archifdy.

Mae cynlluniau rheoleiddio adeiladu Bwrdeistref Caerdydd wedi'u catalogio'n llawn fel rhan o brosiect 'Caerdydd: Hanes Adeiladu Prifddinas', a gellir chwilio trwyddynt ar gronfa ddata ar-lein sydd ar wefan Archifau Morgannwg. Mae cynlluniau adeiladu awdurdodau lleol eraill yn cael eu catalogio ar hyn o bryd.

Manylion Gwerthu

19eg – 20fed ganrif

Roedd hysbysiadau am werthu tai yn rhywbeth cyffredin o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chynhyrchwyd catalogau manwl pan werthwyd ystadau neu dai mawr. Mae hysbysiadau am werthu tai hefyd yn ymddangos mewn papurau lleol ac mae'r rhain yn nodi newid enwau strydoedd hefyd. Mae dogfennau o'r math hwn i'w cael mewn sawl casgliad, yn arbennig papurau Stephenson ac Alexander, Arwerthwyr a Thrifesurwyr Siartredig (**DSA**), oedd â busnes ledled De Cymru.

Cyfrifiad

1841-1901

Mae gan yr Archifdy gopiâu microfiche o ffurflenni cyfrifiad, yn cynnwys y cyfrifiad diweddaraf a gyhoeddwyd, sef 1901. Cynhaliwyd cyfrifiad pob 10 mlynedd ers 1801, er mai dim ond ers 1841 mae ffurflenni unigol ar gael. Mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i dŷ penodol gan nad yw rhifau ac enwau tai wedi'u nodi bob amser, er bod cofnodion cyfrifiad wedi'u nodi yn nhrefn tai, fesul stryd. Edrychwch am 'arwyddion' fel strydoedd cyfagos, cyffyrdd a phellter o adeiladau nodedig fel tafarndai a gwestai.

Cofrestri Etholiadol

1841-

Mae'r rhain yn rhestru pawb sydd â hawl i bleidleisio mewn etholiadau. Gall cofrestri etholiadol fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwybodaeth am bobl sy'n byw yn yr eiddo, er bod ymchwilio yn gallu cymryd llawer o amser gan fod cofnodion wedi'u rhestru fesul ardal bleidleisio, ward, stryd, eiddo a phreswlydd. Tan 1918 ychydig o ddynion oedd yn cael pleidleisio mewn etholiadau seneddol ac nid oedd menywod yn cael gwneud o gwbl. Peidiwch â synnu os nad yw eich eiddo a'r preswylwyr wedi'u nodi ar y cofrestri. Gweler ein taflen *Cofrestri Etholiadol* am ragor o wybodaeth.

Llyfrau Pleidleisiau

1756-1868

Mae'r rhain yn cofnodi pleidleisiau etholiadau seneddol. Daeth y broses hon i ben gyda Deddf Bleidleisio 1872, a gyflwynodd bleidleisio cyfrinachol. Mae llyfrau pleidleisiau yn rhoi enwau pleidleiswyr, sut wnaethon nhw bleidleisio ac, o dro i dro, lle maent yn byw. Gweler ein taflen *Cofrestri Etholiadol* am ragor o wybodaeth.

Cofnodion Ystadau a Maenorau

15fed-20fed ganrif

Mae Archifau Morgannwg yn cadw llawer o gofnodion ystadau a maenorau ardal Morgannwg. Mae eraill yn cael eu cadw yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Tan y ganrif ddiwethaf, byddai llawer o dai wedi bod yn eiddo i ystad neu faenor. Roedd llawer o denantiaid maenorau yn berchen ar eiddo trwy ddaliadaeth gopihowld oedd yn golygu bod yn rhaid iddynt fynychu llys wrth i berchnogaeth yr eiddo newid, yn cynnwys achos o etifeddu'r eiddo ar farwolaeth y perchennog. Mae rhai cofnodion llys maenorau wedi goroesi sy'n rhoi gwybodaeth am drosglwyddo eiddo, enwau preswylwyr a'r rhent a dalwyd. Fel rheol, mae rhentolion yn rhestru tenantiaid, natur y denantiaeth a faint o rent sy'n cael ei dalu. Gall cofnodion ystadau hefyd gynnwys gweithredoedd eiddo, mapiau ystadau ac arolygon.

Mapiau ac Arolygon Ystadau

15fed-20fed ganrif

Mae disgrifiadau ysgrifenedig o ystadau ar gael, fel rheol yn dyddio i gyfnod cyn mapiau ac fe'u gelwir yn arolygon, stentau neu lyfrau eiddo. Fel rheol, mae mapiau yn dangos ystad un tîrffeddiannwr. Cyflogwyd y tîrfesurydd gan berchennog yr ystad i fapio ei dir ef yn unig ac i gynnwys gwybodaeth yn ôl ei gyfarwyddyd, felly nid oes unrhyw ffurf benodol i'r mapiau ac mae eu cywirdeb yn amrywio. Mae mapiau ystadau o'r 17eg-19eg ganrif ar gael ac mae mapiau a chynlluniau diweddarach wedi'u seilio ar yr Arolwg Ordnans fel arfer. Os oes eiddo arbennig wedi'i nodi ar y cynllun degwm, dylid gallu chwilio amdano ar fapiau a chynlluniau ystadau. Gall y *Catalogue of Glamorgan Estate Maps* eich helpu i nodi pa gofnodion sydd ar gael a lle maen nhw.

Cofnodion Deddf Cyllid (1910)

1910

Roedd y ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i brisio tir ledled Cymru a Lloegr ac fe arweiniodd at greu gwahanol gofnodion ynglŷn ag eiddo unigol. Mae llyfrau prisiant (**DVAL**) yn cynnwys rhif plot, manylion preswylwyr/perchnogion, disgrifiad o'r eiddo a'i werth. Mae mapiau prisiant yn cyd-fynd â'r rhain sy'n gopiâu gyda nodiadau o fapiau Arolwg Ordnans ail rifyn (graddfa 25 modfedd), sy'n dangos rhifau plot. Er bod gan yr Archifdy lyfrau prisiant dim ond nifer cyfyngedig o fapiau prisiant sydd wedi goroesi ar gyfer Morgannwg.

Cofnodion Treth Tir

1780-1831

Mae cofnodion treth tir (**QLTA**) wedi'u trefnu fesul cantref, rhaniad sirol hynafol, ac yn dyddio i tua 1780-1831. Ychydig o werth sydd iddynt ar eu pen eu hunain gan mai dim ond cofnodi'r perchennog, y preswlydd, yr eiddo a'r asesiad treth a wneir ond gallant fod yn bwysig wrth eu defnyddio gyda gweithredoedd, mapiau ystadau a'r ffurflenni cyfrifiad cynharaf.

Ewyllysiau, Gweinyddiaethau a Rhestrau Eiddo

17eg-20fed ganrif

Gall ewyllysiau fod yn ddefnyddiol ar ôl i chi ddod o hyd i enwau cyn berchnogion eiddo. Ychydig o gofnodion gwreiddiol sydd gan Archifau Morgannwg er bod rhai cofnodion profiant i'w cael mewn casgliadau teuluol, ystadau a chyfreithwyr, ond mae mynegeion profiant 1858-1955 i'w cael yma. Gweinyddiaeth yr Esgob oedd yn prosesu ewyllysiau cyn 1858 ac fe'u cedwir gyda Chofnodion Esgobaethol yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae gan yr Archifdy fynegai enwau i ewyllysiau esgobaeth Llandaf rhwng 1568-1857. Gweler ein taflen *Ffynonellau Defnyddiol Eraill* am fanylion sut i gael copïau o ewyllysiau.

Ffotograffau a Lluniau

19eg-20fed ganrif

Gall ffotograffau a lluniau ddangos newidiadau a wnaed i adeilad neu newid yn ei swyddogaeth. Mae mynegai ar ffurf cardiau i'n cofnodion darluniadol ar gael yn y Swyddfa Gofnodion.

FFYNONELLAU AR GYFER MATHAU ARBENNIG O EIDDO

Ysgolion

Cedwir cofnodion sawl math o ysgol yn y Swyddfa Gofnodion, yn cynnwys casgliad o gynlluniau adeiladu ysgolion yn **DEBG** a **GD/E57-60**.

Tafarnau

1740-20fed ganrif

Gall Ymrwymadau Tafarnau fod yn ddefnyddiol, gan eu bod yn rhoi enw daliwr y drwydded a'r eiddo. Mae manylion ardal Morgannwg i'w cael yng nghofnodion y Llys Chwarter ar gyfer 1779-1828 (**Q/S/E**) a manylion Caerdydd ar gyfer 1740-1742, 1745-1747, 1763, 1772-1773, 1781 (**DA107-117**). Ar ôl y dyddiadau hyn, cedwir y cofrestru trwyddedu gyda chofnodion y Cwrt Bach (**PS**). Gweler ein taflen *Cofnodion y Llysoedd* am ragor o wybodaeth.

Cyn Gapeli

1974

Mae gan yr Archifdy gopi o arolwg a wnaed ar gapeli Morgannwg Ganol ym 1974. Mae'r rhain yn cynnwys hanes, cynlluniau a ffotograffau capeli.

Cyn Eglwysi

19eg-20fed ganrif

Gall cofnodion plwyfi gynnwys dogfennau sy'n ymwneud â rheithordai a ficerdai, yn cynnwys trwyddedau, cynlluniau ac adroddiadau. O ran plwyfi Esgobaeth Llandaf mae gan y swyddfa gyfres o adroddiadau o Brosiect Hanes yr Esgobaeth ym 1959 yn cynnwys gwybodaeth am adeiladau plwyfi. Mae cofnodion perthnasol eraill i'w cael yn yr archifau esgobaethol yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Eiddo ger rheilffordd neu gamlas

19eg ganrif

Mae cofnodion y Llys Chwarter yn cynnwys cyfres helaeth o gynlluniau sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus fel rheilffyrdd, camlesi a thyrpegau (**QDP**).

...AC YN OLAF

Ni fwriadwyd i'r arweiniad hwn fod yn rhestr derfynol o'r ffynonellau sydd ar gael i'r ditectif tŷ. Os hoffech ragor o wybodaeth am ymchwilio i hanes eich tŷ neu'ch ardal, cysylltwch â'r Archifdy.